## BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

**ADRODDIAD I:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR SAFONAU**

**PWNC:** **PWYLLGOR SAFONAU - DYDD GWENER, 28 IONAWR 2022 DYDD GWENER, 28 IONAWR 2022**

**ADRODDIAD GAN:**

---

PRESENNOL:

Cynghorwyr: Lynch
Rosser
J. Thomas
S. Williams
K. Hayden
M. Moore
G. Thomas

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **CROESO AC YMDDIHEURIADAU**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd Dros Dro bawb i'r cyfarfod ac adroddwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb:<br><br>Mr. R. Alexander, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau<br>Miss H. Roberts, Is-gadeirydd | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ni adroddwyd datganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2020.<br><br>**<u>Materion yn Codi</u>**<br><br>*<u>Codi ymwybyddiaeth am oddefebau</u>*<br><br>Cyfeiriodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol at drafodaethau blaenorol a phryderon a nodwyd gan y Cadeirydd nad yw'r Cyngor yn gwneud cymaint o ddefnydd o'r cynllun goddefebau ag awdurdodau lleol eraill. Dywedodd y Swyddog fod hyn oherwydd amgylchiadau gwleidyddol y Cyngor a'r ffaith fod grŵp mwyafrif clir. Fodd bynnag, yn nhermau codi ymwybyddiaeth am oddefebau, dywedodd y Swyddog y gellid cynnwys hyn fel rhan o'r hyfforddiant ar gyfer yr Aelodau etholedig yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai. Cynhelir y sesiwn hyfforddiant gan ddarparydd annibynnol ar 11 Mai 2022 a dywedodd y Swyddog y byddai'n sicrhau y caiff y gwahoddiad hwnnw ei ymestyn i Aelodau'r Pwyllgor Safonau.<br><br>*<u>Gweddarlledu cyfarfodydd</u>*<br><br>Dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol fod gweddarlledu cyfarfodydd yn cael ei ystyried cyn pandemig Covid. Fodd bynnag, mewn ymateb i'r pandemig roedd y Cyngor wedi rhoi system weithredu newydd ar waith i gynnal cyfarfodydd oedd yn cynnwys cyfleuster i recordio cyfarfodydd a gaiff wedyn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor i'r cyhoedd ei weld.<br><br>Dywedodd y Swyddog y penodwyd Pennaeth newydd ar Gwasanaethau Democrataidd yn ddiweddar ac y byddai'n gweithio ar opsiynau ar gyfer darlledu cyfarfodydd y Cyngor yn fyw.<br><br>Yn amodol ar yr uchod, cytunodd y Pwyllgor Safonau i gadarnhau'r cofnodion. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 5** | **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (ELFEN YMDDYGIAD)</u>**<br><br>Cyflwynodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus er gwybodaeth. Nid yw'r adroddiad yn codi unrhyw faterion ymddygiad ar gyfer Blaenau Gwent, fodd bynnag cadarnhaodd y Swyddog y cyflwynir adroddiad yn flynyddol i'r Cyngor ar berfformiad y Cyngor yng nghyswllt materion ymddygiad.<br><br>Mae rhan fach o'r adroddiad yn sôn am berfformiad pob awdurdod lleol ar faterion cod ymddygiad a dywedodd y Swyddog ei bod yn falch i ddweud fod gan Flaenau Gwent record ragorol gyda nifer isel iawn o gwynion yn cael eu cyfeirio at yr Ombwdsmon. Dywedodd y gwyddai aelodau fod y Cyngor yn gweithredu polisi datrysiad lleol a fu'n llwyddiannus mewn datrysiad cynnar ac atal materion rhag cael eu cyfeirio at yr Ombwdsmon.<br><br>Dywedodd y Swyddog hefyd y byddai Rheolwr Gyfarwyddwr y Cyngor yn gadael y Cyngor yn y dyfodol agos i fynd i'w swydd newydd fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.<br><br>Daeth y Swyddog i ben drwy ddweud fod Adroddiad yr Ombwdsmon ar yr elfen ymddygiad yn adlewyrchu'r nifer isel iawn o gwynion a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ym Mlaenau Gwent. Dim ond 1 gŵyn yr aed â hi ymlaen a'i hymchwilio ers mis Gorffennaf 2021 ac roedd hynny'n ymwneud â mater Cyngor Tref a Chymuned. Disgwylir canlyniad y gŵyn. | |
| **No. 6** | **<u>ADRODDIAD PENN</u>**<br><br>Cyflwynodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol yr adroddiad ar yr adolygiad annibynnol a gynhaliwyd gan Fframwaith Safonau Moesegol Cymru. Cafodd yr adroddiad ei ystyried a chaiff ei gefnogi gan Grŵp y Swyddogion Monitro.<br><br>Aeth y Swyddog wedym drwy'r adroddiad yn fanwl a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd M. Moore y cyfarfod ar y pwynt hwn. | |
| **No. 7** | **<u>BLAENGYNLLUN GWAITH – TREFNIADAU HYFFORDDIANT</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gofynnodd Aelod os y gallai adolygiad o Bolisi Chwythu Chwiban y Cyngor ffurfio rhan o gynllun gwaith y dyfodol a hefyd os y gellid hefyd ystyried yr achos diweddar gerbron y Panel Dyfarnu.<br><br>Mewn ymateb, esboniodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol fod y polisi Chwythu'r Chwiban yn ymwneud â staff yn hytrach nag Aelodau etholedig a bod y Cyngor wedi ystyried y polisi.<br><br>Yng nghyswllt yr achos gerbron y Panel Dyfarnu, cadarnhaodd y Swyddog y cysylltwyd â chlercod y Cynghorau Tref a Chymuned ac y rhoddir diweddariad rheolaidd a bod Un Llais Cymru yn darparu cymorth cyfreithiol. Dywedodd nad yw'r Cyngor yn cynnig y polisi datrysiad lleol i gynghorau Tref a Chymuned gan fod ganddynt eu prosesau eu hunain ar waith drwy Un Llais Cymru. Fodd bynnag, cânt eu gwahodd i sesiynau hyfforddiant Cod Ymddygiad y Cyngor.<br><br>Holodd yr Aelod hefyd os y gellid dod â throsolwg o ddatganiadau buddiant Aelodau i'r Pwyllgor.<br><br>Ni wnaeth y Swyddog unrhyw wrthwynebiad i'r cais gan fod datganiadau buddiant Aelodau yn y parth cyhoeddus. Fodd bynnag esboniodd y Swyddog fod dwy elfen, sef datganiad buddiant pan mae Aelod etholedig yn cymryd y swydd a datganiadau buddiant a adroddir mewn cyfarfodydd pan y gall Aelod fod â buddiant neilltuol yn y mater sy'n cael ei ystyried. Caiff hyn ei nodi yn y cofnodion ac mae Gwasanaethau Democrataidd yn cadw cofnod o'r datganiadau buddiant.<br><br>Gofynnodd yr Aelod os oes fersiwn electronig ar gael a chadarnhaodd y Swyddog fod hyn dan ystyriaeth. | |
| **No. 8** | **<u>UNRHYW FATER ARALL A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF</u>**<br><br>Mewn ymateb i sylwadau gan Aelod am amlder cyfarfodydd ac yn y blaen, cadarnhaodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol fod pandemig Covid wedi effeithio ar hyn; fodd bynnag rhagwelir y caiff rhestr o gyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn ei ddatblygu yn dilyn Cyfarfod blynyddol y Cyngor.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu a dywedodd fod y cyfarfod wedi ei gau. | |